Y ffliwt hud

(gwneud yn fawr o fywyd / dyfalbarhad dan anawsterau)

Mae llawer yn cofio am John Bunyan heddiw am ei fod wedi sgwennu llyfr ar hanes taith y Cristion. Credai Bunyan y dylai pawb gael yr hawl i addoli Duw yn eu ffordd eu hunain. Ond yn anffodus doedd y bobl oedd yn rheoli'r wlad ddim yn credu hyn ac felly fe'i carcharwyd. Bu yng ngharchar Bedford am ddeuddeg mlynedd.

Doedd Bunyan ddim yn un am laesu dwylo. Gweithiodd yn galed tra oedd yn y carchar. Byddai'n gwneud carai esgidiau a'u gwerthu wrth borth y carchar. Byddai'r arian wedyn yn mynd i gadw'i deulu. Pan na fyddai'n gwneud carai esgidiau byddai'n ysgrifennu am y grefydd Gristnogol.

Ond roedd Bunyan yn gwneud rhywbeth arall hefyd ac roedd hyn yn gryn ddirgelwch i bawb yn y carchar. O dro i dro byddai llywodraethwr y carchar yn clywed sŵn cerddoriaeth yn dod o gell John Bunyan. Roedd yn union fel sŵn rhywun yn chwarae miwsig hapus ar ffliwt. Ond doedd gan y carcharorion ddim hawl i gael offerynnau cerdd yn y gell. Roedd hyn yn erbyn cyfraith y carchar. "Dyna'r miwsig yna eto," meddai llywodraethwr y carchar a ffwrdd â fo'n syth i gell John Bunyan. Edrychodd drwy'r ffenestr yn y drws. A dyna lle roedd Bunyan yn eistedd ar ei stôl yn gwneud ei waith. Rhuthrodd y llywodraethwr i mewn i'r gell gan ofyn, "O ble mae'r miwsig yma'n dod?"

Edrychodd Bunyan arno'n syn. Doedd dim amdani ond chwilio a chwalu drwy'r gell. Ond doedd dim offeryn cerdd i'w weld yn unman. Y munud y byddai'r llywodraethwr wedi mynd allan o'r gell ac yn dechrau cerdded yn ôl i'w ystafell byddai sŵn y ffliwt i'w glywed unwaith eto. Roedd hyn yn ddirgelwch mawr i lywodraethwr y carchar a'r carcharorion i gyd.

Chwaraeai Bunyan alawon gwahanol ar ei ffliwt. Doedd ganddo ddim cerddoriaeth i'w dilyn felly byddai'n creu alawon o'i ben a'i bastwn ei hun. Y peth cyntaf y byddai'n ei wneud fyddai sgwennu geiriau'r emyn, yna mynd ati i gyfansoddi tôn i gyd-fynd â'r geiriau.

Felly dyna oedd bywyd i Bunyan yn y carchar yn Bedford. Gwneud carai esgidiau i'w gwerthu er mwyn cael arian i gadw'i deulu. Ysgrifennodd lawer iawn am Iesu Grist a chyfansoddodd emynau. Ond beth am y ffliwt hud? Pam na ddaeth y llywodraethwr

o hyd i'r ffliwt? Ymhle roedd Bunyan yn ei chuddio yn ei gell? Wel, roedd Bunyan yn eistedd ar ei ffliwt.

Roedd Bunyan wedi cymryd coes ei stôl ac wedi naddu'r tu mewn i gyd allan ac wedi gwneud tyllau i gymryd ei fysedd. Pan fyddai llywodraethwr y carchar yn dod tuag at ei ystafell byddai'n gwneud cymaint o sŵn efo'i oriadau ac wedyn byddai Bunyan yn gosod y goes yn ôl ar ei stôl. Felly byddai coes y stôl, sef y ffliwt, yn ôl ar y stôl cyn i'r llywodraethwr ddod i mewn. Bu John yn chwarae'i ffliwt am flynyddoedd heb i neb wybod beth oedd yn digwydd.

Adnod:
"Bûm yng ngharchar a daethoch ataf." Mathew 25:36

Gweddi: O Dduw, rwyt ti wedi rhoi geiriau doethineb i rai, geiriau o wybodaeth i eraill ac i eraill eiriau ffydd. Rydym yn ddiolchgar i ti am y rhoddion a roddaist i John Bunyan. Amen.

Trafod:

- Lluniwch restr o lyfrau ac emynau John Bunyan.
- Pa mor bwysig yw fod pawb yn gallu addoli yn ei ffordd ei hun?